**Tasg 1**

# Paratoi … paratoi … paratoi

1.

a. Sut mae Jo wedi paratoi ar gyfer y Nadolig?

b. Beth yw'ch barn chi am hyn?

c. Pa fath o berson yw Jo yn eich barn chi?
Cofiwch roi rhesymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

2.

a. Sut mae Alex wedi paratoi ar gyfer y Nadolig?

b. Beth yw'ch barn chi am hyn?

c. Pa fath o berson yw Alex yn eich barn chi?
Cofiwch roi rhesymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

3.

a. Yn ôl Jo, pwy arall sydd wedi dechrau paratoi ar gyfer y Nadolig? Pam maen nhw wedi gwneud hyn?

b. Meddyliwch am bobl / cwmnïau eraill sy'n gorfod dechrau paratoi'n gynnar ar gyfer y Nadolig.
Pryd maen nhw'n debygol o ddechrau?
Chwiliwch am wybodaeth i ateb y cwestiwn yma.

4. Cymharwch y ddau lythyr a'r ddau berson sydd wedi eu hysgrifennu. Llenwch y gridiau fel y rhai yma.

| Gwahanol | | |
|---|---|---|
| Mae llythyr Jo …<br><br>Mae Jo wedi … | ond | mae llythyr Alex …<br><br>dydy Alex ddim wedi … |

| Tebyg |
|---|
| Mae'r ddau lythyr yn sôn am …<br><br>Mae'r ddau gymeriad … |

5. Beth yw ystyr "Y cyntaf i'r felin gaiff falu" yn llythyr Jo?

6. Trafodwch y ddau gwestiwn yma.

a. Pryd mae'r Nadolig yn dechrau i chi?

b. Pryd mae'r Nadolig yn dechrau i bobl eraill yn y teulu?

**Ym mis Medi, pan fydda i'n gweld y cardiau Nadolig cyntaf yn y siopau …**

**Ym mis Hydref, pan fydda i'n dechrau'r siopa Nadolig …**

**Ar Noswyl y Nadolig, pan fydda i'n sylweddoli bod y Nadolig y diwrnod wedyn …**

**Dw i ddim yn dathlu'r Nadolig, felly …**

7. Pryd mae siopau yn eich ardal chi'n dechrau paratoi ar gyfer y Nadolig?
   Ydych chi'n meddwl bod hyn yn rhy gynnar?
   Rhowch resymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

8. Mae Jo yn dweud bod cwmnïau mawr yn ceisio rhagweld beth fydd yn boblogaidd dros y Nadolig.
   a. Beth sy'n boblogaidd eleni? Gwnewch restr. Beth yw'ch barn chi am y cynnyrch yma?

   b. Ceisiwch ragweld beth fydd yn boblogaidd y Nadolig nesaf. Rhowch resymau dros yr hyn rydych chi'n ei ddweud.

9. Beth mae Alex yn ei ddweud am ei fam?
   Ydych chi'n meddwl bod pobl yn gwneud gormod o ffỳs adeg y Nadolig?
   Rhowch enghreifftiau a rhesymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.